Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
15 Mawrth 2021

SL(5)756 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer pa ddosbarthiadau o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai.

Mae rheoliad 3 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996. Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bersonau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo, sef personau diwladwriaeth, sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai o dan Ddeddf 1996.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 5(1) o Reoliadau 2014 sy'n ymwneud â chymhwystra personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo i gael cymorth tai o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'n rhagnodi dosbarth ychwanegol o bobl, sef pobl ddiwladwriaeth, sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Tai 1996, Deddf Tai (Cymru) 2014
Fe'u gwnaed ar:
Fe'u gosodwyd ar:
Yn dod i rym ar: 19 Mawrth 2021

SL(5)779 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2021

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Bwriedir i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 6(1)(b)(iii) a (2) o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ("Deddf 2007").

Mae'n diwygio'r Atodlen i Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017, er mwyn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf 2007.

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig gan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 ar 30 Rhagfyr 2020.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007
Fe'u gwnaed ar:
Fe'u gosodwyd ar:
Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2021